

Gofal Plant Cofrestredig

Gofal Plant Cofrestredig

Math o Ddarpariaeth	Ystod Oedran Cofrestredig	Disgrifiad	Eithriadau
Gwarchodwr Plant	0 i 8 oed	Mae Gwarchodwr Plant yn rhoi gofal plant yn eu cartref eu hunain, gan ofalu am grwpiau bach o blant (hyd at 6 ar y tro) neu ofal un i un i blant ag anghenion ychwanegol. Defnyddir yn aml ar gyfer hyblygrwydd oherwydd eu bod yn hunangyflogedig.	Caiff Gwarchodwyr Plant eu cofrestru ar gyfer plant hyd at 8 oed ond maent yn aml yn cynnig gofal ar ôl ysgol i blant hŷn.
Meithrinfa (Gofal Dydd Llawn)	0-5 oed llawn amser	Caiff meithrinfeydd eu rhedeg gan fusnesau preifat neu sefydliadau gwirfoddol. Gallant ofalu am grwpiau mawr o blant; bydd y nifer yn dibynnu ar y lleoliad unigol. Byddant yn darparu bwyd a byrbrydau ar gyfer eich plentyn (yn dibynnu am faint y byddant yno). Rhaid i staff gael tystysgrifau Bwyd a Hylendid yn ogystal â gweithio tuag at Ddyfarniadau Bwyta'n Iach.	Mae rhai yn darparu gofal cofleidiol i gysylltu â meithrinfeydd y wlad yn ogystal â chlybiau gwyliau. Mae amseroedd agor yn amrywio o leoliad i leoliad, h.y. mae rhai ar agor yn ystod y tymor yn unig a rhai eraill drwy gydol y flwyddyn.
Grŵp chwarae (Gofal Diwrnod Sesiynol)	2-5 oed. Sesiynau hanner diwrnod	Mae grwpiau chwarae yn darparu gofal plant sesiynol byr, fel arfer tua 2-3 awr yn ystod y bore neu'r prynhawn. Cânt eu harwain gan y gymuned fel arfer a bydd y rhieni yn cymryd rhan.	Bydd rhai grwpiau chwarae yn derbyn plant yn 2 oed, ffoniwch i sicrhau hyn gyda'r darparwr unigol.
Cylch Meithrin (Grwpiau chwarae Cymraeg, gofal dydd sesiynol)	2-5 oed. Sesiynau hanner diwrnod	Grwpiau chwarae Cymraeg yw Cylchoedd Meithrin sy'n rhoi cyfle i blant fod yn ddwyieithog (yn Gymraeg a Saesneg).	NID OES RHAID i rieni siarad Cymraeg er mwyn i'r plant fynychu.
Lleoedd Meithrin Addysgol Am Ddim Rhan	Tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 3 oed	Cynigir lle rhan amser am ddim gan yr Awdurdod Lleol mewn ysgol feithrin gymunedol leol neu ddsbarth meithrin o fewn	Os nad oes lle ar gael mewn lleoliad meithrin cymunedol, gall rhieni wneud cais i ddefnyddio darpariaeth arall a gymeradwyir.

Amser		radiws o 2 filltir o gartref y plentyn.	
Clybiau Brecwast a Chlybiau ar ôl Ysgol	5-11 oed	Gall clybiau fod yn fusnesau preifat neu gall yr ysgol eu hunain eu rhedeg naill ai yn y bore, y prynhawn, neu'r ddau. Pan fydd clwb yn para am lai na 2 awr a hanner nid oes rhaid iddynt gofrestru ag AGGCC. Mae'r rhan fwyaf o glybiau yn canolbwyntio ar chwarae, ond yn cynnig ardaloedd tawel i astudio/darllen hefyd. Mae rhai yn cynnig gwasanaeth casglu o'r Ysgol.	Mae gan rai Ysgolion y gwasanaeth hwn ar gyfer Ysgolion uwchradd.
Cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau	4 - 11 / 11+	Cynlluniau chwarae a gynhelir yn ystod gwyliau ysgol, gydag oriau ac amseroedd agor amrywiol. Maent fel arfer yn darparu gofal sy'n seiliedig ar weithgareddau sy'n briodol i'r oedran h.y. pêl-droed, celf a chreffft.	Mae rhai meithrinfeydd yn darparu gofal yn ystod y gwyliau i blant iau. Fel arfer mae darpariaethau ar wahân i blant hŷn.
Chwarae Mynediad Agored	5-14 oed fel arfer Mae plant yn rhydd i fynd a dod fel y mynnant.	Mae Gwasanaethau Chwarae Caerdydd yn cynnig cyfleoedd mewn canolfannau ar draws y Ddinas a chânt eu trefnu fel mai dim ond pan fydd y plant yn bresennol ac yn cymryd rhan yn y cynllun y cânt eu goruchwylio. Gall y plant fynd a dod o'r cyfleuster fel y dymunant. Maent hefyd yn cynnig cynlluniau sy'n rhedeg am gyfnodau byr - yn ystod gwyliau'r ysgol naill ai yn y bore a/neu'r prynhawn. Y gymhareb staff i blentyn yw 1:13.	Mae'r Gwasanaethau Chwarae wedi hyfforddi aelodau o staff i gyflwyno cymorth chwarae cynhwysol. Mae hyn yn galluogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymorth ychwanegol i gael cyfleoedd chwarae.
Crèche	0-8 oed	Cânt eu darparu fel cyfleuster ychwanegol gan gwmni, sefydliad neu ddigwyddiad fel gofal plant achlysurol. Mae'n rhaid i'r rhieni/plant aros ger y ddarpariaeth e.e. canolfan siopa neu ganolfan hamdden.	Efallai nad yw rhai crèches wedi'u cofrestru.

Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant yn y Cartref	Mae'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref yn cynnig lefel ychwanegol o sicrwydd i rieni sydd am i'w plant gael eu gwarchod yn ei cartrefi eu hunain.	Ffon: 0300 062 5609 Ebost: cssiw.north@wales.gsi.gov.uk
---	---	--

Rhaid bod lleoliad wedi cofrestru wrth ofalu am blant o dan 8 oed a thros 2 awr y diwrnod. I wneud cais am Gredydau Treth mae'n rhaid i chi ddefnyddio darparwr Gofal Plant cofrestredig.

Gofal Plant Anghofrestredig

Nid oes rhaid i'r dewisiadau gofal plant canlynol gofrestru ag AGGCC, felly mae'n rhaid i chi wneud eich geirdaon a'ch gwiriadau eich hun. Ni ellir hawlio credydau treth (gweler yr eithriad ar gyfer nanis).

Math o Ddarpariaeth	Ystod Oedran Cofrestredig	Disgrifiad	Eithriadau
Grwpiau Rhieni a Phlant Bach	0-4 oed	Darparu cyfleoedd chwarae i'r plentyn a chyfleoedd cymdeithasol i Rieni/Gofalwyr, ond mae'n rhaid aros gyda'r plentyn am hyd y sesiwn.	Mae grwpiau fel arfer yn benodol i'r oedran yn enwedig pan fyddant yn seiliedig ar weithgareddau, holwch arweinydd y grŵp cyn mynychu.
Cylch Ti a Fi (Grwpiau Rhieni a Phlant Bach Dwyieithog)	0-4 oed	Maent yn darparu cyfleoedd chwarae i'r plentyn a chyfleoedd cymdeithasol i Rieni/Gofalwyr sydd am ddatblygu sgiliau Cymraeg. Mae'n rhaid i'r Rhiant/Gofalwr aros gyda'r plentyn drwy'r sesiwn gyfan.	NID OES RHAID i chi allu siarad Cymraeg er mwyn ymuno.
Nanis	Unrhyw oed (yn y cartref)	Efallai y byddant wedi'u hyfforddi ac yn meddu ar gymhwyster ffurfiol. Maent yn gofalu am eich plentyn yn eich cartref eich hun. Efallai y byddant yn byw gyda chi neu rywle arall. Mae rhieni yn gyfrifol am gyfweld a gwirio geirdaon.	
Au Pairs	Unrhyw oed (yn y cartref)	Pobl ifanc rhwng 17 a 27 oed yw au pairs. Nid oes ganddynt gymwysterau gofal plant fel arfer; maent fel arfer yn dod o dramor ac yn byw fel aelod o'r teulu i ddysgu Saesneg. Mae'r swyddfa gartref yn awgrymu y dylai au pairs weithio mewn cartref teulu am hyd at 5 awr y dydd yn gyfnewid am tua £50-£60 yr wythnos, ystafell a dau ddiwrnod llawn i ffwrdd yr wythnos. Dylent allu mynychu dosbarthiadau iaith a gwasanaethau	

		crefyddol fel y dymunant.	
Gwarchodwyr Plant	Unrhyw oed (yn y cartref)	Gwarchod plant yw'r arfer o ofalu am blentyn ar ran rhieni'r plentyn dros dro. Pobl ifanc yn eu harddegau sydd fel arfer yn gwarchod plant. Mae gwarchodwr plant yn wahanol i nani o ran cyflogaeth; er ei bod yn bosibl bod gan rai rhieni warchodwr plant rheolaidd y gallant eu galw yn ôl yr angen, bydd y gwarchodwr plant fel arfer yn gweithio am noson ar y tro, tra caiff nani ei gyflogi dros gyfnod hirach o amser.	